Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# BAROD AM BRIFYSGOL

# SUT I EHANGU EICH DATGANIAD PERSONOL

**Yma ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant nid eich canlyniadau a'ch gallu academaidd yn unig rydym yn ystyried, rydym yn edrych ar bob unigolyn a beth sydd yn gwneud chi'n arbennig.**

Wrth wneud eich cais prifysgol trwy UCAS bydd rhaid i chi gwblhau datganiad personol.
Dylai eich datganiad personol gynnwys gwybodaeth am weithgareddau allgyrsiol - diddordebau, hobïau, gwaith gwirfoddol, profiad gwaith....




- Gallwch arddangos a datblygu sgiliau newydd.
- Profi eich ymroddiad ac angerdd tuag at y cwrs.
- Dileu'r diflastod a chael hwyl trwy wneud.

"Yr ymgeiswyr cryfaf yw'r ymgeiswyr sydd yn gallu cysylltu eu gweithgareddau allgyrsiol â'u cwrs astudio arfaethedig."

WWW.UCAS.COM

**Cofiwch i gadw'n ddiogel ar bob adeg a chadw at ganllawiau'r llywodraeth.**

Mae'r cyfyngiadau symud yn gwneud parhau â'ch gweithgareddau allgyrsiol arferol yn anodd ond mae nifer o bethau gallwch wneud i ddangos eich bod yn ymgeisydd teilwng ar gyfer eich cwrs prifysgol dewisedig.

## Dysgu ar lein

mae amrywiaeth eang o gyrsiau byrion, gweminarau, prosiectau ayyb yn benodol i'ch cwrs o'ch dewis ar gael am ddim ar lein. Mae'r we yn llawn posibiliadau.

## Gwirfoddoli

Imae'n bosib gwirfoddoli mewn amryw ffyrdd o ddiogelwch eich cartref. Edrychwch am gyfleoedd yn eich ardal leol neu cysylltwch â sefydliad o ddiddordeb i chi.

## Byddwch yn greadigol

cymrwch ran mewn prosiect; ar eich pen eich hun, gydag aelodau eich cartref neu gyda ffrindiau dros sgwrs fideo. E.e. gwario gormod o amser yn gwylio Netflix? Pam ddim ysgrifennu adolygiad o'r bocs set diweddaraf i chi wylio?

## Darllen ychwanegol

cyfle i ymestyn eich gwybodaeth a pharatoi ar gyfer eich astudiaethau academaidd yn y brifysgol.